**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

16 Gorffennaf 2021

Annwyl Mick

Fframweithiau Cyffredin

Fe wnaethom ni gwrdd yr wythnos hon i drafod ein ffyrdd o weithio a busnes cynnar ar gyfer y Chweched Senedd, a chytuno arnynt. Cytunwyd mai un o'n blaenoriaethau cynnar fyddai ceisio diweddariad ar y sefyllfa bresennol o ran fframweithiau cyffredin.

Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallech roi diweddariad i'r Pwyllgor am y canlynol:

- diweddariad ar y rhaglen fframweithiau cyffredin, gan gynnwys cynnydd tuag at gytundeb ar sut y bydd fframweithiau'n rheoli rhwymedigaethau rhyngwladol a rhyng-gysylltiadau â Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020;

- dyddiad erbyn pryd y bydd yr holl fframweithiau dros dro sydd bellach ar waith yn cael eu cyhoeddi, er budd tryloywder i randdeiliaid y mae'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfreithiau a pholisïau yn y meysydd hyn yn effeithio arnynt;

- os na fydd y wybodaeth hon ar gael, cadarnhad bod y fframweithiau cryno a rannwyd gyda'r Senedd yn gynharach eleni yn cynrychioli'r sefyllfa ddiweddaraf o hyd, gan dynnu sylw hefyd at lle bu unrhyw ddatblygiadau;

- diweddariadau penodol ar yr holl fframweithiau cyffredin unigol (i helpu i ddatblygu ein blaenraglen waith am y 12 mis nesaf).

Yn ogystal, byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi gwybod ar sut mae cysylltiadau rhynglywodraethol wedi bod yn gweithio fel rhan o'r rhaglen.

Byddwn yn croesawu ymateb erbyn 7 Medi 2021.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd